

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn **ar 6 Tachwedd 2023** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Ei Theilyngdod y Maer, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada (yn ysbeidiol), Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng John Wyn Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. L. Toth, Cyng John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig), Lowri Gwyn (Cyfieithydd) a dau aelod o'r Cyhoedd.

68/23 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng Gareth Roberts, Cyng. Delyth Russell.

69/23 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cyng Gareth Parry ddiddordeb yn eitem 77/23 isod oherwydd ei gysylltiad blaenorol ag MCPT.

70/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim

70/23 a) DIRYMU RHEOLAU SEFYDLOG I GANIATÁU PENDERFYNIAD ARGYFWNG AR Y SEFYLLFA BRESENNOL YN Y DWYRAIN CANOL.

PENDERFYNWYD: Dirymu'r Rheolau Sefydlog ar gyfer yr eitem nesaf yn unig.

70/23 b) DERBYN Y PENDERFYNIAD CANLYNOL

Mae Cyngor Dinas Bangor yn mynegi ei anobaith dros y bobl yn Gaza, Israel a'r Lan Orllewinol sy'n dioddef effeithiau'r trais, ac yn erfyn, ar ran holl drigolion y Ddinas, am ddiwedd ar yr ymladd a'r trais.

PENDERFYNWYD: Derbyn y penderfyniad.

71/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.

Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cyngor fod ymgeisydd bellach â diddordeb yn sedd wag Marchog, a'r gobaith oedd y byddai'r ymgeisydd hwn ar gael i fynychu'r cyfarfod nesaf. Hefyd, roedd lle gwag wedi dod yn Ward Menai ac roedd unigolyn wedi dangos diddordeb yn y sedd hon yn barod. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr ymweliad gan gynrychiolwyr yr efeilldref Soest wedi bod yn llwyddiant mawr fel y bu'r arddangosfa tân gwyllt y noson flaenorol. Yn olaf, gan fod Sul nesaf yn Sul y Cofio, gofynnodd y Cyfarwyddwr i'r Cyngorwyr i gwneud pob ymdrech i fod yn bresennol.

PENDERFYNWYD: Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

72/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 2 HYDREF 2023

Roedd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Hydref wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Cyngorwyr.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig bod angen un newid i eitem 64/23 ac y dylai'r penderfyniad ddarllen 'Penderfynwyd cael mwy o fanylion ar sut y gall y Cyngor gydymffurfio â'r ymrwymiad hwn a faint fydd yn effeithio ar weithrediad y Cyngor cyn gwneud penderfyniad terfynol. Cynigiodd y Cyng Bell, y Cyng Patterson a'r Cyng Toth gynorthwyo gyda'r asesiad hwn.'

PENDERFYNWYD: gyda chynnwys y gwelliant, bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2023.

73/23 CYMERADWYO'R CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGOR CYLLID A THROSOLWG.

Roedd Cylch Gorchwyl manwl y Pwyllgor Cyllid a Throsolwg wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod.

Trafodwyd y Cylch Gorchwyl manwl yn fyr.

PENDERFYNWYD: derbyn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor a Throsolwg fel y'i cyflwynwyd.

74/23 CYMERADWYO TRAFODAETHAU I ARWAIN AT EFEILLIO BANGOR Â MAY PEN JAMAICA

Hysbyswyd y Cyngor bod cais wedi dod i law oddi wrth May Pen, yn Jamaica, yn sgil y cysylltiadau hanesyddol rhwng y ddwy ardal, yn gofyn am ddechrau trafodaethau ar y syniad o efeillio May Pen a Bangor. Cafwyd trafodaeth fanwl ar y costau posibl yn erbyn manteision trefniant o'r fath.

PENDERFYNWYD: sefydlu gweithgor gorchwyl a gorffen i archwilio'r cynnig hwn ymhellach ac adrodd ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'r Cyngor. Y cynghorwyr a benodwyd i'r gweithgor oedd y Cyng Elin Walker Jones (Maer), Cyng Gareth Parry (Dirprwy Faer), Cyng Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts.

75/23 CYMERADWYO SICRWYDD CYMORTH CYNTAF AR Y CYD AR GYFER CANOL Y DDINAS DROS Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD.

Adroddwyd bod cais wedi dod i law i gefnogi prosiect a fyddai'n darparu cymorth cyntaf gan gyflenwr proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer canol y ddinas ar yr hyn a ystyriwyd yn nosweithiau prysuraf cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ar y cyd â BID Bangor a Chlwb Nos Trilogy. Cynlluniwyd y prosiect i dynnu'r pwysau oddi ar y GIG a'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Byddai cost darpariaeth o'r fath, a oedd i gynnwys cyflenwi Ambiwlans a phedwar aelod o staff cymwys, ar Ddydd Gwener 'Du', Gŵyl San Steffan a Nos Galan yn gyfanswm o £1,400 i bob cyfranogwr yn y prosiect. Yn dilyn trafodaeth lawn, roedd teimlad cyffredinol nad oedd yr angen am y prosiect wedi ei brofi.

PENDERFYNWYD : gofyn i'r Pwyllgor Cyllid a Throsolwg asesu manteision y prosiect hwn i'r Ddinas ac adrodd yn ôl.

76/23 CAIS AM GYMORTH I MCPT

Derbyniodd y Cyngor gais am gymorth ariannol i MCPT barhau i wneud gwaith cymunedol. Cydnabuwyd bod MCPT wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddigwyddiadau diweddar y Cyngor, gan gynnwys Diwrnod Glanhau'r Maer, Noson Tân Gwylt.

PENDERFYNWYD : rhoi grant o £2,000 i gangen leol yr MCPT fel cydnabyddiaeth o'r gwaith cymunedol sy'n cael ei wneud ym Mangor.

77/23 CEISIADAU CYNLLUNIO.

- i. Cynnig i gyflwyno llinellau melyn dwbl Stryd y Ffynnon a Stryd Robert
Dim gwrthwynebiad
- ii. C23/0787/11/LL – Prifysgol Bangor, Ysgol Cyfrifiadureg ac Electroneg, Stryd y Deon, Bangor – Adeiladu cyfres o ffensys diogelwch o amgylch perimedr yr adeilad.
Dim gwrthwynebiad ffurfiol, fodd bynnag, roedd y Cyngor am nodi nad oedd codi ffens ddur o amgylch yr adeilad yn cyd-fynd â pholisïau gwyrdd a chynaliadwyedd y Cyngor na'r Brifysgol.
- iii. C22/0176/11/LL – Pontio Ffordd Deiniol, Bangor – Gwaith gwella i Barc y Coleg gan gynnwys darparu llwybr troed newydd a thirlunio cysylltiedig.
Dim gwrthwynebiad i'r prosiect cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau'n dangos ardal o weithgarwch sglefrio sy'n torri ar draws y llwybr mewn sawl man. Roedd y Cyngor yn dymuno gwrthwynebu'r croesffyrdd hyn ar sail diogelwch, gan eu bod yn achosi mwy o risg i gerddwyr gan sglefwrwr yn teithio'n gyflym. Nodwyd nad oedd lled y llwybr troed yn ddelfrydol chwaith.
- iv. C23/0639/11/CT – 18 Trem y Wyddfa, Bangor – Gwaith ar goed mewn ardal cadwraeth.
Dim gwrthwynebiadau
- v. C23/0127/11/HY – Nyth , Ffordd Garth, Bangor – Creu arwyddion goleuedig newydd y tu ôl i'r rheilen.
Dim gwrthwynebiadau
- vi. C23/0782/11/LL – Top Shop a Top Man, 255-257 Stryd Fawr Bangor – Newid defnydd o A1 manwerthu i ddarparu 'Tŷ Cyfle' gyda'r llawr gwaelod i'w ddefnyddio fel ardal gwasanaeth cwsmer ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai ac Adra a chyfleuster hyfforddi Dysgu Gydol Oes ar y llawr 1af.
Dim gwrthwynebiadau

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CYFARWYDDWR DINAS